Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru – Adroddiad Monitro 2022–2025

Tachwedd 2025



## 1. Cyflwyniad

Cafodd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ei fabwysiadu a’i gyhoeddi ar 12 Tachwedd 2019. Mae'n amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy ar ein moroedd. Sefydlodd CMCC ddull strategol, dan arweiniad cynllun, o reoli adnoddau morol yn gynaliadwy a pharchu'r amgylchedd a'r ffordd mae'r môr yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, wrth geisio manteision parhaol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol o gyfleoedd newydd.

Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) (MCAA) yn gosod gofyniad cyfreithiol i Weinidogion Cymru fonitro ac adrodd i'r Senedd ar y gwaith o weithredu'r CMCC bob tair blynedd o leiaf. Dyma'r ail adroddiad.

## 2. Y Dull o fonitro

Cafodd Fframwaith Monitro ac Adrodd ar gyfer CMCC (www.llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-fframwaith-monitro-ac-adrodd) ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020. Mae'r Fframwaith, a ddatblygwyd ar y cyd â rhanddeiliaid, yn amlinellu'r dull mae Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn i fesur effeithiolrwydd CMCC.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn yr un fformat â'r Adroddiad cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022. Mae'n adrodd ar yr un set o ddangosyddion:

- Monitro'r broses o wneud penderfyniadau: dangosyddion i asesu effeithiolrwydd CMCC wrth alluogi cyflawni ei amcanion.
- Monitro Amcanion/Polisïau: y canlyniadau (effeithiau) yn y byd go iawn y mae polisïau'r cynllun yn cyfrannu atynt.

Mae'r holl ddata, gwybodaeth ac ystadegau wedi eu defnyddio yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod Mehefin 2022-Mehefin 2025.

Mae Cynllunio Morol yng Nghymru yn dal i fod yn gyfundrefn gymharol newydd nad yw'n gweithio'n annibynnol. Yn hytrach mae'n un o nifer o brosesau sy'n effeithio ar ein hardal morol. Fel y nodwyd yn yr adroddiad monitro cyntaf, mae deall union effaith cynllun strategol fel CMCC yn heriol. Yn yr adroddiad cyntaf, roedd monitro'n canolbwyntio'n bennaf ar y cynnydd o ran gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau canolradd, gan mai dyma'r camau cychwynnol sydd eu hangen er mwyn llwyddo i weithredu system rheoli morol newydd a arweinir gan gynllun.

## 3. Canfyddiadau'r adroddiad diwethaf

Canfu'r adroddiad monitro cyntaf fod tystiolaeth dda bod cynnydd yn cael ei wneud wrth weithredu'r cynllun. Roedd hyn yn cynnwys darparu offer gofodol newydd a chanllawiau sy'n gysylltiedig â chynllunio i gefnogi gweithredu'r cynllun. Adroddwyd bod CMCC yn cael ei ddefnyddio'n fwyfwy gan awdurdodau cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â chydsyniad morol ac mae tystiolaeth dda hefyd fod y cynllun yn dylanwadu ar ddulliau ehangach o ymdrin â rheoli morol. Nodwyd bod rhai arferion da yn dod i'r amlwg mewn perthynas â gwneud penderfyniadau dan arweiniad y cynllun, gyda chysylltiadau clir yn cael eu gwneud â pholisïau'r cynllun wrth wneud penderfyniadau ar lefel prosiect. Nodwyd bod effaith rhai polisïau, yn ôl pob golwg, yn gliriach nag eraill.

Fel sy'n wir ar gyfer gweddill y DU, roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer adrodd am effeithiolrwydd yr CMCC yn ansoddol. Mae hyn wedi gwneud ymdrin ag achos ac effaith mewn perthynas ag CCMC ar adegau'n heriol. Prin oedd y dystiolaeth a oedd ar gael i alluogi nodi'n glir ac yn gywir effaith y cynllun ar ganlyniadau yn y byd go iawn, ochr yn ochr ac yn rhan o'r amrediad o ffactorau ehangach sydd hefyd yn dylanwadu ar newid yn yr amgylchedd morol a'r ffordd mae'n cael ei ddefnyddio a'i reoli.

Adroddwyd bod cynnydd wrth weithredu'r CMCC yn debyg i gynnydd mewn mannau eraill yn y DU.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad monitro diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog dros Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James, Ddatganiad Ysgrifenedig (Datganiad Ysgrifenedig: Datblygu cynllunio morol yn dilyn yr adolygiad tair blynedd o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (1 Mawrth 2023) | LLYWODRAETH. CYMRU). Roedd y datganiad yn nodi, er mwyn defnyddio'r polisïau yn y cynllun yn y ffordd orau, y byddai offer cynllunio mwy penodol a all alluogi dull cynyddol gofodol a rhagnodol yn cael eu datblygu. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad diwethaf ac ystyriaethau ehangach, daeth y Gweinidog ar y pryd i'r casgliad nad oedd angen ailgynllunio ar yr adeg honno.



## 4. Canfyddiadau

Mae'r ddau dabl isod yn nodi ein canfyddiadau ar gyfer yr ail gyfnod adrodd hwn. Mae'r tabl cyntaf yn nodi canfyddiadau'r dangosyddion ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac mae'r ail dabl yn nodi canfyddiadau'r dangosyddion ar gyfer amcanion/polisïau. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r cynnydd ers yr adroddiad diwethaf.

Mae statws RAG yn dangos cynnydd mewn perthynas â'r gweithgarwch, yr allbwn neu'r canlyniad canolradd y mae'r dangosydd yn ymwneud ag ef.

**Gwyrdd** = cynnydd neu dueddiadau cadarnhaol wedi'u nodi, **Oren** = dim newid, **Coch** = gostyngiad.

Mae hyder yn nodi lefel yr hyder y gellir asesu cynnydd yn erbyn dangosydd, gan adlewyrchu ffactorau fel y dystiolaeth sydd ar gael a pha mor gryf yw hi, ac i ba raddau y gellir defnyddio mesurau uniongyrchol a mesuradwy.

Ar y cyfan, mae’r dangosyddion amcanion/polisi hyn yn awgrymu bod rhywfaint o gynnydd wedi’i wneud mewn perthynas â chanlyniadau sy’n cefnogi amcanion CMCC ar gyfer ynni adnewyddadwy, yr amgylchedd hanesyddol ac addasu arfordirol. Fodd bynnag, ychydig iawn o gynnydd sydd wedi’i wneud ar gyfer rhai meysydd polisi.

**Tabl 1: Dangosyddion ar gyfer gwneud penderfyniadau – crynodeb o'r canfyddiadau**

| Dangosydd | Ffynhonnell dystiolaeth | Disgrifiad | Cynnydd (RAG) | Cynnydd ers 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **1. Canllawiau sydd ar gael** | Llywodraeth Cymru<br>Y rhai sy'n gwneud penderfyniadau<br>Cyrff cynghori | Rhestr o ddogfennau canllaw sy'n ymwneud ag CMCC sydd ar gael i gefnogi defnyddwyr y cynllun. | Cyhoeddwyd canllawiau pellach, gan gynnwys dogfennau ategol helaeth sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad ar gyfer ardaloedd adnoddau strategol (SRAs), sy'n diogelu ardaloedd adnoddau allweddol ar gyfer y sector ynni ffrwd lanw, ac wedyn cyflwyno'r ardaloedd adnoddau strategol hynny. Yn ogystal, cyhoeddwyd datganiadau technegol newydd ar gyfer diogelu'r sector a hefyd polisi CMCC ar gyfer diogelu a gwella ecosystemau morol. Mae canllawiau cyd-destunol hefyd wedi cael eu cyhoeddi ar lywodraethu'r sector morol, yn ogystal â chanllaw cynllunio morol trawsffiniol ar gyfer Aber Hafren.<br>Hyder: **Uchel** | Cynyddu<br>↑ |

| Dangosydd | Ffynhonnell dystiolaeth | Disgrifiad | Cynnydd (RAG) | Cynnydd ers 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **2. Cymhwyso polisi CMCC mewn penderfyniadau perthnasol gan awdurdodau cyhoeddus** | Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau | Gwerthuso ceisiadau i bennu a yw polisïau CMCC yn cael eu cymhwyso fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau gan awdurdodau cyhoeddus. | Tystiolaeth bod CMCC yn cael ei gymhwyso'n fwyfwy mewn ceisiadau a phenderfyniadau Trwyddedu Morol. Roedd 100% o geisiadau Band 2 a 96% o geisiadau trwyddedu morol Band 3 i Gyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys gwybodaeth am gydymffurfio ac ystyriwyd eu bod wedi cydymffurfio â'r CMCC. Mae tystiolaeth hefyd fod CMCC yn cael ei ddefnyddio mewn prosesau Gorchmynion Cydsyniad Datblygu, ond mae'r dystiolaeth eu bod yn cael eu defnyddio gan wneuthurwyr penderfyniadau ehangach fel Awdurdodau Cynllunio Lleol yn llai clir.<br>Hyder: **Uchel** | Cynyddu |
| **3. Barn rhanddeiliaid ar effeithiolrwydd CMCC wedi'i lywio gan arolwg defnyddwyr** | Llywodraeth Cymru<br>Defnyddwyr y cynllun | Tystiolaeth o ymgysylltu cadarnhaol â rhanddeiliaid ac effeithiolrwydd y cynllun. | Ni chafodd arolwg rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar gyfer y cyfnod adrodd cyntaf ei ailadrodd. Fodd bynnag, rhoddodd yr Adolygiad Annibynnol o Ddulliau Cynllunio Morol ar gyfer Cymru dystiolaeth bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol a bod y cynllun yn cael ei ystyried yn gadarnhaol gan randdeiliaid ac yn addas i'r diben ar y cyfan.<br>Hyder: **Uchel** | Cynyddu |
| **4. Cynlluniau cyllid cyhoeddus ar gyfer prosiectau sy'n mynd i'r afael ag addasu i'r newid yn yr hinsawdd/gwydnwch ar yr arfordir yn cyfeirio at CMCC** | Llywodraeth Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Tystiolaeth bod cynlluniau grant/cyllid cyhoeddus ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi addasu i'r newid yn yr hinsawdd/gwydnwch ar yr arfordir yn nodi polisïau CMCC. | Nid oes tystiolaeth newydd ar gael bod polisïau cynllun yn llywio cynlluniau cyllid cyhoeddus.<br>Hyder: **Canolig** | Dim newid |

| Dangosydd | Ffynhonnell dystiolaeth | Disgrifiad | Cynnydd (RAG) | Cynnydd ers 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **5. Cynlluniau cyllid cyhoeddus ar gyfer prosiectau adfer a gwella ecosystemau yn cyfeirio at CMCC** | Llywodraeth Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Tystiolaeth bod cynlluniau grant/cyllid cyhoeddus ar gyfer adfer/gwella'r amgylchedd arfordirol a morol yn cyfeirio at bolisïau CMCC. | Nid oes unrhyw dystiolaeth newydd ar gael bod cynlluniau cyllid cyhoeddus ar gyfer prosiectau adfer a gwella ecosystemau yn cyfeirio at CCMC, nac yn cael eu harwain gan bolisïau'r cynllun.<br>Hyder: **Canolig** | Dim newid |
| **6. Datblygu'r sail dystiolaeth** | Llywodraeth Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Adroddiad ar ddarparu a chynnal tystiolaeth sy'n gysylltiedig â gweithredu CMCC. | Cynnydd clir o ran sicrhau bod deunyddiau ategol ar gael drwy'r Porth Cynllunio Morol, gan gynnwys 462 o haenau data ychwanegol sy'n cynnwys SRAs ar gyfer Ynni Llif Lanw, Ardaloedd Adnoddau wedi'u Mireinio a mapio cyfyngiadau ar gyfer ynni ffrwd llanw a thonnau, technoleg ynni gwynt sy'n arnofio ar y môr, dyframaethu ac agregau morol. Mae haenau newydd hefyd yn cynnwys mapiau ystyriaethau amgylcheddol CNC wedi'u diweddaru.<br>Hyder: **Uchel** | Cynyddu |

| Dangosydd | Ffynhonnell dystiolaeth | Disgrifiad | Cynnydd (RAG) | Cynnydd ers 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **7. Defnydd o ddata cynllunio morol gofodol** | Llywodraeth Cymru | Tystiolaeth bod defnyddwyr y cynllun yn cyrchu data gofodol i'w ddefnyddio mewn ceisiadau ac i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. | Bu gostyngiad bach yng nghyfanswm y tudalennau yn y porth Cynllunio Morol (o 2750 i 2519), ac mewn defnyddwyr (o 1430 i 1209). Fodd bynnag, bu cynnydd bach yn nifer y tudalennau mae pob defnyddiwr yn eu gweld (o 1.9 i 2.08), amser defnyddio cyfartalog pob defnyddiwr (o ddwy funud 39 eiliad i ddwy funud 59 eiliad) a nifer y gweithgareddau (h.y. pan fydd defnyddiwr yn dewis haen neu'n gweld metadata) (o 25,671 i 28,607).<br>Felly, er gwaethaf y gostyngiad bach mewn defnyddwyr gweithredol a nifer y tudalennau a welwyd, yn ôl pob golwg mae'r data'n dangos y porth yn cael ei ddefnyddio mwy o ran yr amser a dreulir ar y wefan a nifer y tudalennau a haenau data mae pob defnyddiwr yn eu gweld.<br>Hyder: **Uchel** | Cynyddu |

**Tabl 2: Dangosyddion ar gyfer amcanion/polisïau – crynodeb o'r canfyddiadau**

| Dangosydd | Ffynhonnell dystiolaeth | Disgrifiad | Cynnydd (RAG) | Cynnydd ers 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **8. Diogelu gweithgaredd neu adnodd yn effeithiol** | Penderfyniadau awdurdodau cyhoeddus. | Tystiolaeth o ble mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi ystyried diogelu gweithgaredd neu adnodd presennol fel rhan o'r broses gydsynio. | Ychydig o dystiolaeth sydd hyd yma o effaith polisïau diogelu a chydfodoli ar benderfyniadau. Dim ond un ddogfen benderfynu trwyddedu morol Band 3 oedd yn cyfeirio at bolisi diogelu SAF_01. Roedd pedair dogfen benderfynu'n cyfeirio at gydfodoli (un Band 2 a thri Band 3).<br>Cyflwynwyd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRAs) cyntaf ym mis Ionawr 2025, ac maent yn sicrhau bod ardaloedd adnoddau allweddol ar gyfer y sector llanw ar gael yn y dyfodol. Mae ymgynghoriad cyhoeddus 2024 ar yr SRAs hyna'r adolygiad annibynnol diweddar o ddulliau cynllunio morol yn darparu tystiolaeth bod randdeiliaid yn cefnogi defnyddio SRAs.<br>Mae datganiadau technegol newydd wedi cael eu cyhoeddi er mwyn diogelu gweithgarwch a buddiannau presennol ar gyfer porthladdoedd a morgludo, cychod hamdden a cheblau tanfor.<br>Hyder: **Canolig** | Cynyddu<br>↑ |
| **9. Datblygu ein dealltwriaeth o werth ychwanegol gros (GYG) morol yng Nghymru a 10. o Gyflogaeth Forol yng Nghymru** | Llywodraeth Cymru | Crynodeb o ddealltwriaeth o GYG morol blynyddol Cymru a chyflogaeth ar gyfer sectorau morol allweddol. | Bylchau a chyfyngiadau data sylweddol wedi'u nodi ar gyfer y data sy'n ymwneud â GYG a chyflogaeth forol Cymru.<br>Hyder: **Uchel** | Dim newid<br>= |

| Dangosydd | Ffynhonnell dystiolaeth | Disgrifiad | Cynnydd (RAG) | Cynnydd ers 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **11. Graddfa'r sector ynni adnewyddadwy** | Llywodraeth Cymru<br>Ynni Môr Cymru | Adrodd ystadegau ar nifer a maint y datblygiadau ynni adnewyddadwy sydd wedi cael eu gosod. | Mae'r cyfnod adrodd wedi gweld twf a buddsoddi parhaus mewn datblygiadau ynni gwynt ar y môr – boed yn dechnoleg sefydlog neu dechnoleg sy'n arnofio ar y môr. Nododd yr Adroddiad ar Gyflwr Sector Ynni Morol Cymru ar gyfer 2023 mai cyfanswm y gwariant a buddsoddiadau oedd £103.4 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys dyfarnu Trwydded Forol ar gyfer datblygiad ynni gwynt ar y môr arnofiol cyntaf Cymru, Erebus, parth arddangos llanw Morlais, a datblygiad ynni gwynt ar y môr sefydlog gan Awel y Môr. Dangosodd Adroddiad Cyflwr y Sector 2024 fuddsoddiadau o £29.9 miliwn sydd, er ei fod yn is na llynedd, yn dal i fod yr ail wariant uchaf hyd yn hyn.<br>Mae'r map ar dudalen 14 yn dangos maint y datblygu ynni adnewyddadwy yn nyfroedd Cymru dros amser.<br>Hyder: **Uchel** | Cynyddu<br>↑ |

| Dangosydd | Ffynhonnell dystiolaeth | Disgrifiad | Cynnydd (RAG) | Cynnydd ers 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **12. Nifer a gwerth yr ymweliadau twristiaeth ag arfordir Cymru** | Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol | Ystadegau cryno ar faint a gwerth ymweliadau twristiaeth ag arfordir Cymru. | Mae'r data sydd ar gael ar gyfer y dangosydd hwn yn rhy gyfyngedig i gynnal llinell sylfaen gyson. Naill ai nid yw'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd ar gyfer adroddiad 2019-2022 yn cael eu cynhyrchu mwyach, neu bu newidiadau methodolegol sy'n gwneud cymharu'n anodd. Nid yw ffynonellau data twristiaeth eraill yn gwahaniaethu rhwng twristiaeth forol ac arfordirol a mathau eraill o dwristiaeth. Nid oes data clir ar gael i ddangos cynnydd neu ostyngiad.<br>Hyder: **Isel** | Dim newid |
| **13. Defnydd hamdden o'r amgylchedd morol** | Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol | Crynodeb o'r ddealltwriaeth bresennol o ddefnydd hamdden o'r amgylchedd morol ac arfordirol yng Nghymru. | Ar hyn o bryd nid oes llinell sylfaen gyson ar gael ar gyfer gweithgareddau hamdden yn ardal cynllun morol Cymru.<br>Hyder: **Uchel** | Dim newid |
| **14. Asedau Hanesyddol** | Penderfyniadau awdurdodau cyhoeddus | Cymhwyso polisi Asedau Hanesyddol mewn penderfyniadau perthnasol. | Mae gweithredu'r polisïau treftadaeth yn cael eu hystyried a'u cymhwyso'n rheolaidd fel rhan o'r broses ymgeisio am drwyddedu morol pan fydd hynny'n berthnasol. Cyfeiriodd pedair dogfen penderfynu trwyddedu morol at SOC_05 yn benodol (un Band 2 a thri Band 3).<br>Hyder: **Uchel** | Dim newid |
| **15. Cydymffurfio â pholisïau'r cynllun Rheoli Traethlin (SMP)** | Penderfyniadau awdurdodau cyhoeddus | Adolygiad o geisiadau perthnasol a'u cydymffurfiaeth â pholisïau'r SMP. | Roedd tri phenderfyniad Trwyddedu Morol CNC yn unol â pholisïau'r Cynllun Rheoli Traethlin (SMP). (Dau Fand 2 ac un Band 3).<br>Hyder: **Canolig** | Dim newid |

| Dangosydd | Ffynhonnell dystiolaeth | Disgrifiad | Cynnydd (RAG) | Cynnydd ers 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **16. Statws Amgylcheddol Da (GES) Strategaeth Forol y DU** | Strategaeth Forol y DU, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru | Adolygiad o gynnydd tuag at dargedau neu gyflawni GES o dan Strategaeth Forol y DU ar gyfer y disgrifyddion canlynol:<br>• 16a. Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS)<br>• 16b. Sbwriel môr<br>• 16c. Statws poblogaethau pysgod masnachol | Mae cyflawni GES mewn perthynas ag INNS yn ansicr ar gyfer y Moroedd Celtaidd a Môr y Gogledd Mwyaf oherwydd cyfyngiadau data a diffyg monitro cynhwysfawr ar gyfer INNS yn nyfroedd y DU.<br>Nid yw'r DU wedi bodloni GES ar gyfer sbwriel morol. Mae lefelau sbwriel morol cyffredinol yn parhau i fod yn uchel yn gyffredinol, er ein bod yn gweld gostyngiadau calonogol mewn sbwriel traeth a phlastigau a geir yn stumogau adar drycin y graig. Ar hyn o bryd nid yw cynnwys stumogau'n cael ei asesu yng Nghymru oherwydd diffyg rhywogaeth ddangosydd priodol.<br>At ei gilydd, mae pysgod a physgod cregyn sydd wedi cael eu dal at ddibenion masnachol wedi bodloni GES yn rhannol ar draws dyfroedd y DU. Drwy integreiddio'r meini prawf ar gyfer y ddau ddangosydd (pwysau pysgota a gallu atgenhedlu), mae ein hasesiad (ar gyfer y cyfnod 2016–2021) yn dangos bod 42% o stociau pysgod morol cwota ac 11% o stociau pysgod cregyn nad ydynt yn gwota wedi bodloni GES. Mae hyn yn gynnydd o 9% ar gyfer stociau morol cwota a 6% ar gyfer stociau pysgod cregyn nad ydynt yn gwota.<br>Hyder: **Canolig** | Dim newid |


| Dangosydd | Ffynhonnell dystiolaeth | Disgrifiad | Cynnydd (RAG) | Cynnydd ers 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **17. Asesiadau o gyflwr safleoedd dynodedig** | Cyfoeth Naturiol Cymru | Adolygiad o allbynnau asesiadau o gyflwr safleoedd dynodedig. | Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru yr asesiadau cyflwr cynhwysfawr cyntaf ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfordirol a ddarganfuwyd yn gyfan gwbl yng Nghymru ym mis Mehefin 2025.<br>Hyder: **Canolig** | Dim newid |

## 5. Casgliad

Mae ein casgliadau cyffredinol ar gyfer monitro CMCC fel a ganlyn:

- Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth sydd ar gael i ganiatáu dealltwriaeth o effeithiolrwydd yr CMCC yn ansoddol; Mae penderfynu ar achos ac effaith mewn perthynas â'r CMCC yn parhau i fod yn heriol.
- Mae tystiolaeth dda bod cynnydd yn cael ei wneud o ran gweithredu'r cynllun, gan gynnwys drwy ddarparu offer gofodol newydd a chanllawiau sy'n gysylltiedig â chynllunio.
- Mae'r CMCC yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth i awdurdodau cyhoeddus wneud penderfyniadau mewn perthynas â chydsyniad morol, yn enwedig trwyddedu morol, ac mae tystiolaeth hefyd fod y cynllun yn dylanwadu ar ddulliau ehangach o ymdrin â rheoli morol.
- Mae rhai arferion da yn dod i'r amlwg mewn perthynas â gwneud penderfyniadau dan arweiniad y cynllun, gyda chysylltiadau clir yn cael eu gwneud â pholisïau'r cynllun. Yn ôl pob golwg mae rhai polisïau'n cael effaith gryfach nag eraill.
- Rhoddodd yr adolygiad annibynnol o ddulliau cynllunio morol ar gyfer Cymru dystiolaeth y cydnabyddir bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol a bod rhanddeiliaid yn o'r farn bod y cynllun yn addas i'r diben at ei gilydd.
- Mae polisïau’r Cynllun yn cefnogi cyflawni amcanion y Cynllun, er enghraifft, ehangu'r defnydd o ynni adnewyddadwy morol, ond mae graddau’r cynnydd yn amrywio. Mae tystiolaeth resymol i awgrymu bod amcanion y cynllun yn cyfrannu tuag at gyflawni'r Amcanion Morol Lefel Uchel (HLMOs) gydag amcanion y cynllun yn cael eu halinio â HLMOs.

**Ffigur 1. Mapiau yn dangos lleoliad datblygiadau, prydlesi a pharthau arddangos ynni adnewyddadwy morol 2019, 2022 a 2025.**




Yn cynnwys data a ddarparwyd gan Ystad y Goron a warchodir gan hawlfraint a hawliau cronfa ddata. Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus a drwyddedwyd dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, gan Swyddfa Hydrograffig y DU. Yn cynnwys Daearyddiaeth Cydraniad Uchel Hierarchaidd Hunangyson Byd-eang, fersiwn 2.3.7 Mehefin 15 2017, a ddosbarthwyd o dan Drwydded Gyhoeddus GNU Lleiaf. Môr a Bioamrywiaeth, Llywodraeth Cymru. Awst 2025.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52603, ISBN digidol 978-1-80633-501-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg